# Deddf Cyllido Gofal Plant (Cymru) 2019

**2019 dccc 1**

*Darpariaeth ar gyfer datgelu gwybodaeth*

PROSPECTIVE

**4 Darparu gwybodaeth gan drydydd partïon**

(1) Caiff y rheoliadau ganiatáu i Gomisiynwyr Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, neu berson sy'n darparu gwasanaethau i'r Comisiynwyr, ddarparu gwybodaeth gymhwysol i Weinidogion Cymru neu i berson sy'n darparu gwasanaethau i Weinidogion Cymru.

(2) Caiff y rheoliadau hefyd ganiatáu i adran o'r llywodraeth neu i un o Weinidogion y Goron, neu i berson sy'n darparu gwasanaethau i adran o'r llywodraeth neu i un o Weinidogion y Goron, ddarparu gwybodaeth gymhwysol i Weinidogion Cymru neu i berson sy'n darparu gwasanaethau i Weinidogion Cymru.

(3) Caiff y rheoliadau ganiatáu neu ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol, neu i berson sy'n darparu gwasanaethau i awdurdod lleol, ddarparu gwybodaeth gymhwysol i Weinidogion Cymru, neu i berson sy'n darparu gwasanaethau i Weinidogion Cymru.

(4) Ystyr "gwybodaeth gymhwysol" yw gwybodaeth a bennir yn y rheoliadau neu sydd o ddisgrifiad a bennir yn y rheoliadau; ond ni chaiff gwybodaeth na disgrifiad o wybodaeth gael ei phennu neu ei bennu felly ond os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny at ddibenion penderfyniadau o ran cymhwystra i gael cyllid o dan adran 1.

(5) Ni chaniateir gwneud darpariaeth yn y rheoliadau ar gyfer datgelu gwybodaeth a gedwir gan—

- (a) Comisiynwyr Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi;
- (b) un o Weinidogion y Goron;
- (c) adran o'r llywodraeth;
- (d) person sy'n darparu gwasanaethau i berson a grybwyllir ym mharagraff (a), (b), neu (c),

ond os yw'r Gweinidog priodol wedi cydsynio â'r ddarpariaeth.

**Statws** *Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.*
**Newidiadau i ddeddfwriaeth:** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cyllido Gofal Plant (Cymru) 2019, Adran 4. (See end of Document for details)*

(6) Y Gweinidog priodol yw—

(a) mewn perthynas â Chomisiynwyr Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, y Trysorlys;

(b) mewn perthynas ag un o Weinidogion y Goron neu adran o'r llywodraeth, yr Ysgrifennydd Gwladol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 4 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 13(2)**

**Statws**
Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cyllido Gofal Plant (Cymru) 2019, Adran 4.